

Ar Drywydd y Gwneuthurwyr Haearn 7  
**Llwybr Crawshay Bailey**



Taith 7 **Llwybr Crawshay Bailey**

Taith gymedrol, 5.5 milltir - 9 cilomedr, 2 awr

**Man cychwyn - Maes Parcio Neuadd y Farchnad, Brynmawr (SO 190 116).**

**RHAN 1**


Yn gyntaf yn deg, roedd Nant-y-glo yn cael calchfaen o Chwareli Disgwylfa a Carreg Bica ("The Lonely Shepherd" yn Saesneg). Tua 1816, adeiladwyd Tramffordd Disgwylfa i gysylltu'r chwareli â'r gwaith. O 1829 ymlaen, daeth y calchfaen o Chwareli Llangatwg ac adeiladwyd tramffordd newydd - Tramffordd Llangatwg Bailey (sydd nawr yn cael ei adnabod fel yr Hafod) - i'w gludo i Nant-y-glo.

**Gadewch y maes parcio trwy'r ffordd gul i mewn i Sgwâr y Farchnad.** Yn y sgwâr roedd Tramffordd Llangatwg yn rhannu'n ddau. Roedd y gangen chwith yn rhedeg bron ar onglau sgwâr i lawr Station Road tuag at 'Limestone Road' a'r gwaith haearn.



Gwaith Haearn Nant-y-glo, 1829

**Dilynwch llwybr y gangen arall yn syth ar draws y sgwâr, gan groesi'r B 4248 a throi i'r chwith i mewn i Warwick Road.** Ar ôl 600m fe welwch Barc y Welfare sydd bellach ar safle Pwll Heathcock, un o'r pyllau oedd yn cyflenwi Gwaith Haearn Nant-y-glo.



**Yn syth ar ôl y parc trowch i'r dde i Park Crescent.** Mae'r ffordd hon yn dilyn llwybr Tramffordd Disgwylfa.

**Dilynwch Park Cescent nes cyrraedd cyffordd ar ffurf T. Trowch i'r dde a dilyn y ffordd hon i mewn i Well Street. Trowch i'r chwith ar hyd Well Street a chroesi'r B4248 (George Street).** Ar ôl rhyw 200m, byddwch yn mynd i fyny grisiau at yr A4047 (King Street). **Trowch i'r dde ar hyd King Street ac ar ôl 100m trowch i'r chwith i ddilyn Clydach Street.** Rydych yn dal ar gwrs Tramffordd Disgwylfa.

**Dilynwch Clydach Street ar hyd ei gwrs troellog am ychydig dros 1km.** Wrth i chi adael Clydach Street a mynd i mewn i Aneurin Crescent, fe welwch gyfres o domennydd ar ffurf bysedd ar y chwith mewn cyflwr da. Mae'r rhain yn rhan o'r 'patsys' - ardal o gloddfeydd mwyn haearn a glo i'r gogledd o Frynmawr.



Tŷ Cast

**Ar derfyn Aneurin Crescent dilynwch y llwybr o'ch blaen a chroesi'r ffordd graean, ewch dros y gamfa a chymryd y llwybr sy'n dilyn y berth.** Y llwybr hwn yw sylfaen gwreiddiol y dramffordd gyda sliperi carreg yn sownd yn y ddaear.

Gwelir y dramffordd fel silff wedi ei thorri i mewn i ochr y mynydd. Roedd yn croesi afon Clydach rhyw 1km o'ch blaenau ger man uchaf yr A465 ac yna'n troi tua'r dwyrain i'r gogledd o'r afon.

**Dilynwch y dramffordd i'r gorllewin.** Rydych nawr ar 'Y Patsys' - lle'r oedd pobl yn tyllu ochr y mynydd i gloddio mwyn haearn a glo. Ar ochr arall y cwm gallwch weld y tramffyrdd, pyllau'r "patsys", lefelau a chwareli oedd yn cyflenwi defnyddiau crai i Waith Haearn Nant-y-glo.

**Yn y man ble mae'r llwybr yn culhau trowch i'r chwith i fyny allt.**

Cerddwch ymlaen nes y dewch at dri phwll ac olion un o bentrefi'r mwynwyr - Rhas Fach.

**O Ras Fach, ewch yn eich ôl i Aneurin Crescent. Hanner ffordd ar hyd Aneurin Crescent, ewch ar hyd y llwybr ar y chwith. Dilynwch hwn am 250m nes i chi gyrraedd Intermediate Road a throi i'r dde.** Dyma Dramffordd Llangatwg Bailey o tua 1829 a oedd yn cysylltu Chwareli Llangatwg â Nant-y-glo.

**Dilynwch Intermediate Road i King Street, croeswch i Lower Bailey Street ac felly'n ôl i Sgwâr y Farchnad.**

**RHAN 2**



Rheilffordd Clydach

Roedd pedair lein yn mynd â haearn gorrffenedig allan o Nant-y-glo - Tramffordd Aberbig (1828), Rheilffordd Clydach (1793), Tramffordd Gyfeilon (1829) a Tramffordd Llangatwg (1829). Roedd y tair olaf yn rhedeg i lawr at lanfeydd ar Gamlas Sir Frycheiniog a'r Fenni yn y Gilwern, Gyfeilon a Llangatwg.

**O Sgwâr y Farchnad trowch i'r chwith i Alma Street - llwybr Rheilffordd Clydach.** Yn 1814, fe wnaeth Gwaith

Haearn Nant-y-glo gyntundeb gyda Gwaith Haearn Cendl i ddefnyddio'r llwybr hwn i lawr i Gilwern, ond roedd yn rhaid iddynt dalu toll ar bob tunnell o haearn oedd yn cael ei gludo.

**Dilynwch Alma Street i'r gyffordd gyda'r A4047 (King Street). Dilynwch hwn at y gylchfan a phasio o dan Ffordd Blaenau'r Cymoedd gan ddefnyddio'r isffordd.** Yng nghanol y gylchfan fe welwch Bont Clydach. Roedd hon yn cludo Rheilffordd Clydach a'r Ffordd Dyrpeg o Ferthyr i'r Fenni.

**Ar yr ochr arall, trowch i'r dde ar hyd y llwybr cerdded sy'n rhedeg ochr yn ochr gyda Ffordd Blaenau'r Cymoedd.** Dyma llwybr Rheilffordd Clydach.

**Ar ôl rhyw 300m, fe welwch arhosfa ar ochr arall yr A465.** Yma fe welwch Lefelau Glo Clydach a agorwyd yn 1812 i gyflenwi glo i'w werthu yn Y Fenni. Mae un fynedfa'n debyg i geg ogof yn ochr y ceunant; mae gan y llall fwa o gerrig cain a adeiladwyd adeg gosod Rheilffordd Merthyr, Tredegar a'r Fenni.



Rheilffordd yr MT & A

**Dilynwch y llwybr cerdded ymhellach am 300m.** Mae pont wreiddiol o 1793 yn croesi'r Nant Melyn yma.



Tramffordd Disgwylfa

**Parhewch am 350m arall i groesi o dan Ffordd Blaenau'r Cymoedd.** Dyma safle Pont Harry Isaac. **Ar yr ochr arall, trowch i'r chwith ac ewch ar hyd y llwybr.** Mae hwn yn dilyn lein rheilffordd a agorwyd yng nghanol y 1790au i gysylltu pyllau glo Gelli Felen gyda Gwaith Haearn Cendl.

**Dilynwch hwn wrth iddo fynd i fyny allt ychydig.** Ar ôl 350m fe gyrhaeddwch Reilffordd MT & A sydd yma'n dilyn cwrs Tramffordd Gyfeilon 1821. **Trowch i'r dde arno a dilyn y trac yn ôl i'r gylchfan ym Mrynmawr a dilyn Alma Street yn ôl i Sgwâr y Farchnad.**



Rheilffordd Clydach

Er mwyn gadael inni wybod a fuoch chi'n mwynhau'r daith neu am ragor o fanylion cysyllter â ni ar 01495 355937 / 07968 472812  
 alyson.tippings@blaenau-gwent.gov.uk

